**GWAHODDIAD I DENDRO**

**Chwaraeon Cymru: Adnewyddu'r 29 o ystafelloedd llety presennol**

**Dogfennau'r Tendr Hwn**

Adran 1: Dogfen Gyflwyniadol
Adran 2: Gwybodaeth a Chyfarwyddiadau i Dendrwyr
Adran 3: Amodau'r Tendr
Adran 4: Manylion y gofynion a dogfen ymateb

**Atodiadau**

Atodiad 1: Polisi Iechyd a Diogelwch
Atodiad 2: Telerau ac Amodau Safonol
Atodiad 3: Cynlluniau llawr a dimensiynau'r ystafelloedd.

**ADRAN 1**

**CYFLWYNIAD**

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy’n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach Chwaraeon Cymru) gan Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972. Mae’n cael ei ariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac o incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau ei hun. Dyma'r prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Agorodd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru (CGChC) yn 1972, ac mae wedi'i lleoli mewn ardal allweddol o barcdir yng Nghanol Caerdydd. Mae ganddi ystod eang o gyfleusterau ac mae'n cynnwys adain breswyl. Mae CGChC wedi bod yn ganolbwynt i ddigwyddiadau chwaraeon a masnachol cenedlaethol, rhyngwladol a mawr yng Nghymru ers ei hagor ac, ar hyn o bryd, mae'n denu cyfranogwyr, swyddogion a gwylwyr o lawer o genhedloedd. Oherwydd y proffil chwaraeon uchel hwn, mae craffu manwl ar y staff a'r sefydliad.

Mae'r CGChC ar agor tua 360 diwrnod y flwyddyn, gan gau dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn unig, a Gwyliau Banc achlysurol yn dibynnu ar archebion (tybio ei bod ar agor am 4 Gŵyl Banc y flwyddyn). Mae CGChC ar agor yn gyffredinol i'r cyhoedd ei defnyddio rhwng 0630 a 2300 o'r gloch ac mae'r caffi(s) ar agor am 0800 o'r gloch. Dim ond yn ystod dyddiau'r wythnos o 0800 i 1800 o'r gloch y defnyddir y rhan fwyaf o'r swyddfeydd.

**ADRAN 2**

**GWYBODAETH A CHYFARWYDDIADAU I DENDRWYR**

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru eisiau adnewyddu ei 29 o ystafelloedd llety i gyd-fynd â 2 o'n hystafelloedd a adnewyddwyd yn ddiweddar yn y Ganolfan Genedlaethol. Dylid amserlennu'r gwaith mewn cydweithrediad â'r archebion presennol a llunio amserlen i'w gwblhau cyn Mawrth 30ain 2025.

Dylai'r tendr gynnwys Gwarant 12 mis ar offer a llafur.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sy'n gweithio yn CGChC fod wedi'u hyfforddi'n arbennig o dda a bod â ffocws ar y cwsmer.

**Rhwymedigaethau statudol**

Bydd y Contractwr yn sicrhau cydymffurfiaeth drwy gydol tymor y Contract â'r holl ddarpariaethau statudol a rheoleiddiol perthnasol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cydraddoldeb, amser gweithio, gwaredu gwastraff a GDPR. Os bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol neu unrhyw ddeddfwriaeth newydd a fydd yn effeithio ar y gwasanaethau neu'r Contract, naill ai'n weithredol neu'n fasnachol, bydd y Contractwr yn hysbysu Chwaraeon Cymru yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl o raddfa a chwmpas effaith bosibl unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig ac, os bydd unrhyw newidiadau a allai gael effaith ariannol, yn cynghori'n fanwl ar effaith ariannol debygol y newidiadau.

**Staff addas**

Bydd gan y Contractwr broses recriwtio ar waith sy'n rhoi sicrwydd rhesymol bod unrhyw staff a gyflogir gan y Contractwr yn Chwaraeon Cymru yn addas, yn ddibynadwy a bod modd ymddiried ynddynt. Bydd y Contractwr yn cynnal archwiliadau DBS manwl ac yn sicrhau nad oes unrhyw staff yn cael eu cyflogi ar y safle os daw unrhyw droseddau i'r amlwg a fyddai'n dynodi anaddasrwydd y person hwnnw.

Bydd y Contractwr hefyd yn sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn gymwys, yn brofiadol ac yn dechnegol gymwys i gyflawni'r gwaith.

Bydd y Contractwr yn symud o'r safle unrhyw aelod o staff y bernir nad yw'n addas gan Gynrychiolydd Chwaraeon Cymru.

**Diogelwch**

Rhaid i weithredwyr fod mewn iwnifform ac arddangos bathodyn adnabod pan maent ar safle Chwaraeon Cymru.

Bydd allweddi'n cael eu rhoi i'r Contractwr a staff y Contractwr yn unol â gweithdrefn berthnasol Chwaraeon Cymru fel sy'n ofynnol i gyflawni'r gwasanaethau isod yn briodol. Bydd y Contractwr yn gwneud pob ymdrech resymol i gadw’r allweddi a phasys yn ddiogel a bydd yn atebol am unrhyw gostau a phob cost sy'n deillio o esgeulustod clir a / neu gamddefnyddio bwriadol ar allweddi a phasys o dan reolaeth y Contractwr.

Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y Gwasanaethau'n cael eu cyflawni mewn modd nad yw'n peryglu'r trefniadau diogelwch sydd gan Chwaraeon Cymru ar waith i warchod ei safle a'i eiddo.

**Iechyd a Diogelwch**

Bydd y Contractwr yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gofynion polisi Iechyd a Diogelwch Chwaraeon Cymru (atodiad 1) bob amser.

Bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl weithrediadau a’r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu gwneud mewn modd diogel. Ni fydd y Contractwr yn caniatáu i unrhyw wastraff, deunyddiau neu offer gael eu gadael yn unrhyw le heblaw'r ardaloedd dynodedig ar unrhyw adeg; bod yr holl goridorau, grisiau, allanfeydd brys a phob llwybr arall yn cael eu cadw'n glir o rwystrau bob amser.

**Cymorth Cyntaf yn y Gwaith**

Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod asesiad risg Cymorth Cyntaf ar gyfer ei staff yn cael ei gynnal a bod swyddogion cymorth cyntaf cymwys yn gweithio ar bob shifft.

**Amgylchedd gwaith diogel**

Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau amgylchedd gwaith diogel ond ni all dderbyn atebolrwydd am ddifrod neu anaf a achosir o ganlyniad i esgeulustod ar ran y Contractwr.

**Polisïau a gweithdrefnau**

Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y gwasanaethau a'r staff sy'n darparu'r gwasanaethau yn cydymffurfio bob amser â holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol Chwaraeon Cymru, gan gynnwys, a heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol (darperir manylion llawn yn ôl yr angen, ond dylid nodi'r penawdau canlynol):

| | |
|---|---|
| Parcio Ceir | Bydd caniatâd i'ch staff gael mynediad i barcio ar y safle. |
| Defnyddio Ffonau | Ni fydd cyflogeion y Contractwr yn defnyddio unrhyw ffonau Chwaraeon Cymru ac eithrio mewn achosion o argyfwng gwirioneddol. |
| Cardiau Adnabod Staff | Rhaid i gyflogeion gael cardiau adnabod a gwisg benodol gan y Contractwr. Rhaid i'r rhain gael eu harddangos yn glir ar y person unigol bob amser pan fydd ar safle Chwaraeon Cymru. |

**Cynrychiolwyr Awdurdodedig**

Rhaid i newidiadau neu amrywiadau i'r gwasanaethau, ac eithrio amrywiadau ad hoc, achlysurol a di-dâl, gael eu hawdurdodi ymlaen llaw gan y Cynrychiolydd Cleient canlynol:

Rheolwr Technegol

**Cyfyngiadau gweithio dros dro**

Gall Chwaraeon Cymru, drwy Gynrychiolydd y Cleient, roi cyngor i'r Contractwr i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau dros dro mewn rhai ardaloedd mewn achosion fel gwaith adeiladu, newid defnydd dros dro ac ati. Rhaid i'r Contractwr sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r cyfarwyddiadau hyn. Os bydd unrhyw atal estynedig ar ddarparu gwasanaethau, rhaid i'r Contractwr hysbysu Chwaraeon Cymru o'r lleihad mewn costau yn unol â Chynrychiolydd y Cleient.

**Gweithdrefnau hawliadau difrod ac anaf**

Rhaid cofnodi unrhyw ddifrod neu golled i eiddo neu anaf i staff y Contractwr gan ddefnyddio Gweithdrefnau Damweiniau a Digwyddiadau Chwaraeon Cymru oni bai y cytunir gyda Chynrychiolydd y Cleient bod gweithdrefnau'r Contractwr yn cwmpasu'r wybodaeth sydd ei hangen yn ddigonol.

**Mesur perfformiad a gwneud iawn (Dangosyddion Perfformiad Allweddol)**

Rhaid i'r Contract rhwng Chwaraeon Cymru a'r Contractwr gynnwys meini prawf mesur perfformiad manwl y cytunir arnynt rhwng y partïon. Bydd mesur perfformiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddibynadwyedd gwasanaeth, amseroedd ymateb, safon gwaith, rheoli digwyddiadau a phroblemau a boddhad cyffredinol y cwsmeriaid.

Ynghyd â mesur perfformiad bydd cymhellion i'r Contractwr gynnal lefelau uchel o berfformiad, a bydd cymhellion o'r fath ar ffurf tymor contract estynedig fel rheol.

Bydd y Contract hefyd yn cynnwys cyfrwng i Chwaraeon Cymru ddal taliadau yn ôl neu derfynu'r Contract ar unrhyw adeg lle mae tystiolaeth o berfformiad gwael / anfoddhaol parhaus sy'n gyfystyr â thorri'r Contract.

**Cydweithrediad trosglwyddo**

Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y contractwr yn rhoi nodiadau trosglwyddo / diagramau digidol a llawlyfrau gweithredu a chynnal a chadw.

**Hawl archwilio**

Rhaid i'r Contractwr gadw cofnodion llawn a phriodol o bob trafodyn sy'n effeithio ar y gwasanaethau, a bydd gan Chwaraeon Cymru, ar bob adeg resymol, fynediad at a'r hawl i atgynhyrchu a chadw copïau o unrhyw un o lyfrau, gohebiaeth a dogfennau'r Contractwr o unrhyw fath, gan gynnwys cofnodion o drafodion masnachol a gedwir mewn unrhyw gyfrwng, a bydd y Contractwr yn darparu unrhyw allweddi neu godau sy'n angenrheidiol ar gyfer creu copïau darllenadwy ohonynt.

**Ardaloedd Storio**

Cytunir ar unrhyw Storio offer cyn dechrau'r tendr / Contract.

**Y Wasg a'r Cyfryngau**

Rhaid i'r Contractwr gael caniatâd y Rheolwr Technegol cyn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg neu'r cyfryngau, sylwadau neu adroddiadau sy'n ymwneud â Chwaraeon Cymru, ei bolisïau neu safle CGChC.

**Gofynion Cyflwyno**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau Chwaraeon Cymru ar gyfer cyflwyno tendrau, rhaid i chi sicrhau bod eich tendr yn cael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion canlynol. Bydd methu â gwneud hynny, sy'n cynnwys peidio ag uwchlwytho neu gyflwyno eich tendr yn llwyddiannus erbyn yr amser cau, yn gwneud eich tendr yn annilys.

Bydd angen cyflwyno'r tendr yn electronig drwy flwch post GwerthwchiGymru.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau yw 12:00 hanner dydd ar 30ain Medi 2025**

Mae'r gofynion ymateb wedi'u nodi yn **Adran 6**. Mae dau faen prawf asesu – ansawdd a masnachol (ffioedd a thaliadau).

Wrth baratoi eich cyflwyniad, dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol, a lle bo hynny'n briodol, caniatáu ar eu cyfer:

- Bydd unrhyw gontract, a all gael ei ddyfarnu, yn cael ei drafod yn unol â thelerau ac amodau gwasanaeth Chwaraeon Cymru, y gellir dod o hyd i gopi ohonynt yn Atodiad 2.

- Dylai tendr fod yn ddilys i'w dderbyn hyd at ddyddiad dechrau'r Contract.

- Bydd Chwaraeon Cymru yn hwyluso ymweliad safle am 11am ar 18fed Medi 2025. Ni fydd unrhyw ddyddiadau eraill yn cael eu trefnu a rhaid i'r rhai sy'n dymuno ymweld gadarnhau hynny'n ysgrifenedig i Mr Carl Mahoney (Carl.Mahoney@sport.wales) erbyn 9am ar 16eg Medi. Dim ond dau gynrychiolydd a ganiateir o bob Contractwr.

- Ac eithrio lle mae hynny'n gyhoeddus, ystyrir bod cynnwys y dogfennau hyn ac unrhyw wybodaeth a geir wrth baratoi eich tendr yn gyfrinachol ac ni chaniateir eu datgelu mewn unrhyw ffordd o gwbl i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd penodol ymlaen llaw gan Chwaraeon Cymru.

**Cyfathrebu â Chwaraeon Cymru**

Rhaid gwneud pob cais am wybodaeth bellach, eglurhad neu unrhyw ddull arall drwy adran cwestiynau ac atebion hysbyseb tendr GwerthwchiGymru.

**Meini prawf ar gyfer dewis a dyfarnu**

Bydd unrhyw Gontract(au) a ddyfernir o ganlyniad i'r tendr hwn yn cael ei ddyfarnu i'r darparw(y)r sy'n gallu dangos yn llwyddiannus y gallu i ddarparu ateb effeithlon, cymwys, dibynadwy a chost-effeithiol i'n gofynion.

**Dadansoddiad o'r sgorio:**

Bydd y sgorio'n cael ei werthuso yn unol â'r pwysoli canlynol:

| Adran | Pwysoli canran |
|---|---|
| Ansawdd (Cyflenwi a Phrofiad) | 20% |
| Masnachol (Ffioedd a Thaliadau) | 80% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

**Telerau ac Amodau Talu**

Bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu telerau talu o 30 diwrnod ar gyfer y dyfarniad hwn. Yn eich ymateb tendro dylech gadarnhau eich bod yn derbyn y telerau talu hyn.

**Cyfrinachedd**

Fel rhan o'ch tendr, dylech ddarparu datganiad o sicrwydd cyfrinachedd ac annibyniaeth. Ni chaiff hwn ei sgorio ond bydd bodolaeth datganiad addas yn amod dyfarnu.

**ADRAN 3**

**Amodau'r Tendr**

Drwy gyflwyno tendr, rydych yn cydnabod ac yn cytuno'n llawn i'r amodau canlynol:

- Mae cynnwys a gofynion y dogfennau tendro wedi cael eu darllen, eu deall a, lle bo angen, cydymffurfiwyd â hwy.
- Mae hwn yn dendr dilys, ac nid yw'r prisiau a / neu'r symiau a nodir yma wedi'u haddasu ac ni fu unrhyw ddylanwad annheg arnynt oherwydd unrhyw drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw drydydd parti.
- Nid ydych, ac ni fyddwch, cyn dyfarnu unrhyw gontract, yn cyfathrebu ag eraill ac eithrio'r sefydliad tendro ynghylch y swm a dendrwyd neu fanylion penodol y swm, ac eithrio pan fo angen datgelu'r wybodaeth hon i gael gwybodaeth i gefnogi ein cais.
- Nid ydych ac ni fyddwch yn gwneud unrhyw drefniant neu gytundeb a allai arwain at eraill yn peidio â chyflwyno tendr neu ddylanwadu ar y swm a gyflwynir gan eraill.
- Nid ydych ac ni fyddwch yn cynnig unrhyw gymhelliant, yn ariannol neu fel arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson neu drydydd parti mewn unrhyw ffordd i ddylanwadu ar unrhyw dendr a gyflwynir neu ran ohono.
- Mae egwyddorion a gofynion y dystysgrif hon wedi cael eu dwyn i sylw'r holl is-gontractwyr, cyflenwyr neu gysylltiadau sy'n gysylltiedig â'r tendr hwn, neu bydd hynny'n digwydd cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol eu dwyn i'w sylw.
- Rydych drwy hyn yn cynnig ymrwymo i gontract gyda Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion yn y tendr hwn ac ar gyfer y costau a'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn eich ymateb tendro.
- Mae unrhyw a phob mater, boed yn dechnegol, yn weithredol, yn fasnachol neu'n gytundebol, lle nad yw eich ymateb i'r tendr yn cydymffurfio, naill ai'n llawn neu'n rhannol, â gofynion y tendr hwn, wedi'u diffinio'n glir mewn dogfen o dan y pennawd 'Cymwysterau Tendro' a'i chyflwyno fel rhan o'ch ymateb tendro.

**Pwysoli Ansawdd (Darparu Gwasanaethau a Phrofiad) o 20%**

**Darparu Gwasanaethau a Phrofiad:**

Mae gan yr adran hon bwysoli o 20%. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu sgorio gan banel gwerthuso gan ddefnyddio'r canllawiau sgôr 0, 1, 3 neu 5 (0 yw'r isaf a 5 yw'r uchaf), gan ddefnyddio'r matrics a nodir isod;

| | |
|---|---|
| **Sgôr o 0 lle mae** | **Dim ymateb neu'r ymateb ddim yn berthnasol i'r cwestiwn neu gwestiwn heb ei ateb** |
| **Sgôr o 1 lle mae** | **Ymateb Gwael** – Yr ateb wedi rhoi sylw rhannol i'r cwestiwn ond nid oes tystiolaeth o'r ddarpariaeth a geisir. Diffyg dealltwriaeth wirioneddol o'r gofyniad neu dystiolaeth o'r gallu i gyflawni |
| **Sgôr o 3 lle mae** | **Ymateb Derbyniol** - Mae'r ymateb yn cydymffurfio â'r cwestiwn ac yn darparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani |
| **Sgôr o 5 lle mae** | **Ymateb Rhagorol** – yn rhoi sylw i'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth glir i gefnogi atebion. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni neu ragori ar y gofyniad |

Atebwch bob cwestiwn yn uniongyrchol. Peidiwch â mewnosod dolenni gwe nac atodiadau pdf fel ymatebion uniongyrchol i'r cwestiwn. Gallwch ddangos eich atebion gyda 'cipluniau' o'r sgrin neu luniau i gefnogi eich ateb yn uniongyrchol. Dim ond os ydynt yn berthnasol i'r cwestiynau a ofynnir y gellir ystyried atodiadau ychwanegol ac ni ellir cynnwys ymatebion yn rhesymol yn yr adran 'ateb'.

Bydd y bocsys yn ehangu wrth i chi deipio.

| **6.1 ANSAWDD (20%)** | |
|---|---|
| **1** | DATGANIAD CYFLWYNIADOL<br>O ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn y tendr hwn, dylech ddarparu trosolwg cryno o sut byddech yn mynd ati i gyflawni'r Contract hwn pe baech chi'n llwyddiannus. Dylech gynnwys cynlluniau / amserlenni gwaith, Rheolaeth y prosiect, gan gynnwys tarfu ar westeion eraill y llety a swyddfeydd.<br><br>(5 MARC) |
| | |

| | |
|---|---|
| **2** | STAFFIO – RHEOLI A GWEINYDDU<br>Dylech nodi'r staff allweddol sy'n ymwneud â rheoli a gweinyddu'r Contract gan fanylu ar eu rôl a'u profiad o gefnogi'r Contract.<br><br>(3 MARC) |
| | |
| **3** | STAFFIO – GORUCHWYLWYR AR Y SAFLE<br>Dylech ddarparu manylion am gyfrifoldebau'r goruchwylwyr arfaethedig ar y safle ynghyd â'r cymwysterau y bydd gofyn iddynt eu cael. Sut byddant yn rheoli'r gwaith adnewyddu o ddydd i ddydd.<br><br>Dylech ddarparu cadarnhad y bydd goruchwylwyr ar y safle wedi cael archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod â'r hawl i weithio yn y DU.<br><br>Dylech ddarparu gwybodaeth am y strwythurau staffio rydych chi'n eu cynnig, gan gynnwys niferoedd, amseroedd ac oriau gwaith. Felly, i gynnwys cymwysterau ac unrhyw drwyddedau.<br><br>(5 MARC) |
| | |
| **4** | OFFER<br>Dylech ddarparu gwybodaeth am yr offer y byddwch chi'n ei ddefnyddio i weithredu'r Contract a pha mor aml y dylid ei newid.<br><br>Rhaid darparu'r holl Ardystio a Phrofi perthnasol.<br>Nodwch y gwaith trydanol. A’r profi yn dilyn y gosod.<br><br>(3 MARC) |
| | |

| | |
|---|---|
| **5** | ANSAWDD A PHERFFORMIAD<br>Dylech ddarparu datganiad o'r safonau rydych chi'n bwriadu gweithio oddi tanynt mewn perthynas â'r Contract hwn a'r gweithdrefnau rheoli ansawdd i'w defnyddio.<br><br>Dylech ddarparu trosolwg o sut rydych chi'n gweld y mesur perfformiad yn cael ei wneud ar y Contract hwn, yn benodol: pa ffactorau ddylid eu hystyried; sut gellir mesur y ffactorau hyn; sut gellir casglu barn Chwaraeon Cymru a'r Contractwr yn fanwl gywir; a pha gymhellion perfformiad gaiff eu defnyddio gan wahaniaethu rhwng cymhellion perfformiad staff a chymhellion y Contract.<br><br>Disgwylir i'r Contractwr llwyddiannus ddarparu gwybodaeth reoli fanwl yn gysylltiedig â'r Contract hwn.<br><br>Dylech nodi eich parodrwydd i fynychu cyfarfodydd adolygu ffurfiol rheolaidd i gynorthwyo i fonitro ac arwain perfformiad y Contract.<br>(4 Marc) |
| | |
| **6** | IECHYD A DIOGELWCH<br>Dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch sut rydych chi'n rhoi sylw i iechyd a diogelwch, yn enwedig mewn perthynas ag asesiadau risg, COSHH, Profi Offer Cludadwy, hyfforddiant, cymorth cyntaf a datganiadau dull lle bo hynny'n briodol (e.e. ymwybyddiaeth o Asbestos a Legionella).<br><br>Dylech atodi eich Polisi Iechyd a Diogelwch. (5 Marc) |
| | |
| **7** | AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD<br>Dylech ddarparu gwybodaeth am sut rydych chi'n rhoi sylw i’r amgylchedd, ôl troed carbon a rheolaeth gynaliadwy.<br><br>Rhowch fanylion am ddull arfaethedig eich Sefydliad o waredu unrhyw ddeunyddiau gwastraff o gyfleuster Chwaraeon Cymru. |

| | |
|---|---|
| | (3 MARC) |
| | |
| **8** | Prosiectau Blaenorol<br><br>Dylech ddarparu manylion ynghylch 2 brosiect blaenorol llwyddiannus, gan gynnwys moderneiddio llety / ystafelloedd gwesty.<br><br>Adolygiadau / adborth o'r prosiect blaenorol i'w cynnwys. (5 MARC) |
| | |
| | |
| **12** | Dylech ddarparu'r canlynol, y gellir eu cyflwyno fel atodiadau;<br><br>• Set ddiweddaraf o gyfrifon wedi'u harchwilio<br>• Copïau o dystysgrifau yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr ac atodlen o yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac unrhyw dystysgrifau yswiriant perthnasol eraill<br>• Copïau o unrhyw achrediadau perthnasol (e.e. BIC / ISO / ac ati) neu wobrau<br><br>(0 Marc - Gwybodaeth yn unig) |
| | |
| **6.2** | **MASNACHOL (80%)** |
| **1** | Mae'n ofynnol i gontractwyr ddatgan y gost maent yn fodlon cyflenwi'r gwaith, y nwyddau a'r gwasanaethau amdani, yn unol â'r Fanyleb ac amodau'r contract a roddir yn y dogfennau tendr hyn. (5 Marc) |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| **2** | Rhaid i'r prisio ddangos y gost ar gyfer pob gofyniad a dylai gynnwys yr holl gostau cysylltiedig ar gyfer y contract hwn. (5 Marc) |
| | |
| **3** | Gwarant 12 mis ar offer a Llafur i'w chynnwys. (2 Farc) |
| | |

**Sgorio**

Bydd y tendr yn cael ei sgorio yn seiliedig ar ddyraniad o 80% ar bris / masnachol (Ffioedd a Thaliadau) ac 20% ar ansawdd (Darparu Gwasanaethau a Phrofiad). Mae manylion penodol y sgorio wedi'u nodi isod.

**Pris / Masnachol (Ffioedd a Thaliadau)**

$$\text{Sgôr} = \frac{\text{Pris Tendr Isaf}}{\text{Pris Tendr}} \times [80] \text{ (y marc uchaf sydd ar gael)}$$